

DIBEN Y SENEDD

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi yng Nghymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


DIBEN COMISIWN Y SENEDD

Mae Comisiwn y Senedd yn gwasanaethu'r Senedd er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

NODAU STRATEGOL COMISIWN Y SENEDD AR GYFER Y PUMED SENEDD



Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf



Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd



Defnyddio adnoddau'n ddoeth

BLAENORIAETHAU COMISIWN Y SENEDD AR GYFER Y PUMED SENEDD

Caniatáu i'r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i'w cefnogi.

Sicrhau bod gan y Senedd yr adnoddau a'r arbenigedd y mae eu hangen arno i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i'r DU ymadael â'r UE.

Cefnogi'r Senedd yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru. Sicrhau Senedd leuenctid sy'n

uchelgeisiol ac yn ymgysylltiol, sy'n cyfoethogi'r Senedd, ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Senedd a'r broses o gymryd rhan, a ddangosir ar ffurf lefelau uwch o ymgysylltu.

Cyfoethogi gwaith ac enw da'r Senedd, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd. Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu

bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn.

Sicrhau bod yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.

Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn.

EIN GWERTHOEDD #UNTÎM



PARCH:

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.



ANGERDD:

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.



BALCHDER:

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.

